Diweddariad i Aelodau Llais y Goedwig 13 Medi 2011

Gyda'r gwyntoedd yn chwythu a'r dail yn troi'n liwiau Hydrefol, fe'ch croesawn chi i rifyn mis Medi o ddiweddariad Llais y Goedwig. Amcan y Diweddariad yw cadw aelodau mewn cysylltiad â'r penderfyniadau a wneir yng nghyfarfodydd bwrdd Llais y Goedwig. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis ar y dydd Mawrth cyntaf a'n bwriad yw cyhoeddi Diweddariad yn fuan ar ôl pob cyfarfod, felly dylech gael chwech y flwyddyn. Gellir lawrlwytho rhifynnau blaenorol o Ddiweddariadau ar y wefan.

Cofiwch fod cyfarfodydd y Bwrdd yn agored i bob aelod, felly cysylltwch â Jo yn y swyddfa os hoffech ddod os gwelwch yn dda. Cynhelir y nesaf ar y 1af o Dachwedd ym Machynlleth. Os hoffech daflu eich hun i mewn i bethau, yna buasem yn argymell i chi ymwneud â'r Grŵp sy'n gweithio ar Bolisi, mwy o wybodaeth am hyn isod...

Cynnwys

- Diwrnod Rhannu Sgiliau Coetir Llais y Goedwig- 15 Hydref 2011
- Grŵp polisi Llais y Goedwig – Adroddiad o'i gyfarfod cyntaf a'r camau nesaf
- Rhoi cyfweliadau ar ran Llais y Goedwig- a allwch chi ein cynorthwyo?
- Lansio Cyhoeddiadau LlyG
- Cymorth I gael ein neges yn y wasg
- Mae Llais y Goedwig ar Facebook a Twitter
- Ffilmiau Coedwig Rhyngwladol
- Slip archebu

Diwrnod Rhannu Sgiliau Coetir Llais y Goedwig- 15 Hydref

Oes ganddoch chi sgil coetir i'w rannu? Ydych chi angen datblygu eich sgiliau coetir? Os ydych yna darllenwch fwy…

Un o brif amcanion Llais y Goedwig yw rhoi cyfle i aelodau gyfarfod, rhannu syniadau a chefnogi'r naill a'r llall. Bydd ein digwyddiad nesaf yn gwneud yr union beth yma, rhannu sgiliau a chynnig llwyfan i aelodau arddangos eu sgiliau arbennig eu hunain i aelodau eraill, yn ogystal â bod yn esgus da i ddod at ein gilydd.

Caiff y digwyddiad ei drefnu gan **Goleg Coppicewood** yng Nghoedwig Cwm Plysgog, Cilgerran (ger Aberteifi) ddydd Sul 15fed o Hydref. Bu Coleg Coppicewood yn dysgu sgiliau coetir traddodiadol a rhai cefn gwlad ers 2006 ac yn gyfrifol am hyfforddi nifer o bobl sydd bellach gyda chysylltiad cryf efo sector coetiroedd bychain a chymunedol Cymru. Felly lle well i gynnal diwrnod rhannu sgiliau coetir? Mae'r coleg yn un o aelodau mwyaf gweithgar rhwydwaith Llais y Goedwig, a siaradodd aelod o'r staff, Nick Barnes, yn lansiad y sefydliad yn 2009. Felly rwan, ddwy flynedd yn ddiweddarch mae'n amser addas i ymweld â Choedwig Cwm Plysgog.

Bydd y digwyddiad yn gyfarfod anffurfiol gyda digonedd o le i gyfranogwyr rwydweithio a thrafod. Roedd llawer o'r adborth a gawsom am ein digwyddiadau blaenorol yn dweud bod rhwydweithio'n un o'r agweddau mwyaf gwerthfawr o'r rhai a gynhaliwyd hyd yma, felly y tro hwn bydd digon o gyfle i wneud hynny! Dymunwn i gynnwys y digwyddiad fod wedi ei greu gan yr aelodau yn hytrach na dod â siaradwyr gwâdd atom o'r tu allan. Gwyddom fod gan ein aelodau amrywiaeth o sgiliau, doniau a straeon i'w rhannu. Felly, erfyniwn arnoch i gamu ymlaen; os oes ganddoch sgil i'w rannu y tybiwch y bydd o fudd a diddordeb i aelodau eraill yna cysylltwch â **Jo yn swyddfa Llais y Goedwig** os gwelwch yn dda ac fe geisiwn eich rhoi ar y rhaglen. Gallai fod yn unrhyw beth o'r ymarferol i'r biwrocrataidd… edrychwn ymlaen at glywed am eich syniadau a'ch ysbrydoliaeth.

Dylid atodi'r poster a'r ffurflen archebu lle i'r diweddariad hwn, a bydd hefyd ar gael yn http://llaisygoedwig.org.uk/2011/08/23/llais-y-goedwig-woodland-skillshare/

A fyddwch cystal â chysylltu â Jo i rannu eich syniadau neu fynegi diddordeb mewn dod.

jo.cooper@llaisygoedwig.org.uk 01654 700061.

Diweddariad o Gyfarfod Cyntaf Grŵp Polisi Coedwig Llais y Goedwig

Daeth deuddeg o bobl i gyfarfod agoriadol grŵp gweithredol polisi LlyG ar yr 21ain o Orffennaf i weithio ar y Maniffesto (cafwyd ymddiheuriadau gan chwech o bobl). Trafodwyd llawer a chafwyd dechrau da – gellir lawrlwytho cofnodion y cyfarfod isod – ond mae digon o waith ar y Maniffesto o hyd. Bydd cyfarfod arall yn cael ei gyhoeddi'n fuan – ond gwahoddir pob awgrym yn y cyfamser!

syniadau o'r cyfarfod polisi cyntaf

Rwan mae angen datblygu pethau'n eithaf cyflym gan y gobeithiwn gyfarfod y Gweinidog yn ystod y deufis nesaf.

Os oes gennych unhryw syniadau i'w rhoi gerbron cysylltwch â Jo os gwelwch yn dda.

Os dymunwch gael gwybodaeth am waith polisi LlyG yna gofynnwch i Jo eich rhoi ar restr bost y grŵp polisi.

http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/engage-with-policy/

Mynediad caniataol gyda Glastir – Targedu Darpariaeth

Bydd lefel uwch, Elfen Darged (ED) y cynllun Rheoli Coetir Glastir arfaethiedig yn agor yn Ionawr 2012 ac mae am brynu gwasanaethau amgylcheddol penodol gan goetir er budd y cyhoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darparu mynediad caniataol. Cafodd Bwrdd Llais y Goedwig ei wahodd i gyfarfod tîm CG sy'n paratoi CRhC Glastir i drafod ariannu mynediad caniataol (h.y. gwaith llwybrau) yng nghanol Hydref.

Croesawodd Bwrdd Llais y Goedwig y cyfle i gynnig sylwadau ar yr agwedd yma o Glastir gan ei fod yn ymwneud â mynediad cyhoeddus a choetiroedd cymunedol a bu'n adolygu papur cyfarwyddyd ar y pwnc a baratowyd gan CCGC. Mae gan y rhan fwyaf o goetiroedd cymunedol lwybrau caniataol sy'n ateb anghenion cymunedau lleol boed nhw'n rhai cefn

gwlad neu drefol ar gyfer mynediad i ardaloedd naturiol lle ceir ystod eang o fuddion personol (lles corfforol a meddyliol, addysg, theatr, beicio).

Yn ôl pob golwg canolbwyntiodd papur CCGC fel y mae ar
(1) fynediad caniataol i wasanaethu twristiaeth gan ei fod am gysylltu 'gwasanaethau lleol' i 'ffyrdd strategol penodol' ac o fewn 2km i'r llwybr arfordir newydd a
(2) pharatoi mynediad i gymunedau difreintiedig gan gymryd eu bod wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol Cymunedau'n Gyntaf ac Adfywio Sengl.

Y bwriad yw paratoi mapiau fydd yn dangos lle mae'r angen mwyaf am lwybrau yn ôl y meini prawf hyn gyda mewnbwn gan Fforymau Mynediad Lleol.

Fel ymateb cyffredinol cyntaf i'r papur cynigodd y Bwrdd y dyllid ehangu'r meini prawf er mwyn:
a) cydnabod bod 20% o gymunedau difreintiedig mewn ardaloedd cefn gwlad
b) gwasanaethu anghenion pobl leol a
c) chydnabod bod coetiroedd yn sefyll ar eu pennau hunain fel cyrchfannau

Cwestiynau eraill i'w gofyn yw a oes rhai ohonoch yn aelodau o'ch Fforwm Mynediad Lleol neu'n gwybod pwy ydynt fel y gallwch edrych os y byddai eich coedlen yn cael ei thargedu ar gyfer grantiau llwybr.

A fyddwch cystal â chysylltu a gadael inni wybod pa mor bwysig yw grantiau mynediad i chi a'ch ymateb i'r cynigion (gallwch lawrlwytho mwy o wybodaeth o wefan LlyG *yma).* Mae gallu dangos bod cefnogaeth a chyfranogiad gweithredol aelodau LlyG mewn materion y gofynnir ein cyngor arnynt, o wir gymorth i ni gyfleu ein dadleuon.

Gellir gweld y papur ac ymateb Llais y Goedwig iddo ar y wefan: yma. Os y dymunwch ddarllen copïau papur o'r dogfennau hyn, cysylltwch â Jo yn y swyddfa os gwelwch yn dda (manylion isod). Anfonwch unrhyw sylwadau sydd ganddoch am Glastir a mynediad caniataol un ai i gymeradwyo'r tri phwynt uchod neu i ychwanegu syniadau eich hun.

Os hoffech fod mewn cysylltiad â gwaith polisi LlyG yna gofynnwch i Jo eich rhoi ar restr bostio grŵp polisi, ac edrychwch ar dudalen "Ymwneud â Pholisi" dan "Yr hyn a wnawn" ar ein gwefan:http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/engage-with-policy/

Rhoi cyfweliadau ar ran Llais y Goedwig – a allwch chi ein cynorthwyo?

O bryd i'w gilydd (yn enwedig pan fo digwyddiad wedi ei drefnu), mae'r cyfryngau'n cysylltu â Llais y Goedwig i gael cyfweliadau – gan amlaf gyda phobl sy'n gweithio yn y goedwig. Os yw hyn yn rhywbeth y gallech chi ei wneud i'n cynorthwyo, ac yn enwedig os ydych yn medru siarad Cymraeg, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Mae gennym daflenni cyfarwyddyd a gallwn eich hyfforddi ynglŷn â'r hyn y dylid chwilio a meddwl amdano wrth wneud cyfweliad radio, teledu neu efo'r papurau. Nid oes rhaid ichi wybod llawer iawn am y mudiad, a byddai ond disgwyl ichi siarad am bynciau y teimlech yn gyfforddus amdanynt. Rydym yn ceisio gwneud rhestr o bobl fyddai'n fodlon cael eu cyfweld i gynrychioli profiad helaeth ein haelodaeth, felly a wnewch chi gysylltu efo ni os gallwch ein cynorthwyo gyda hyn os gwelwch yn dda.

Lansio Cyhoeddiadau LlyG

Wedi llawer o waith caled, mae'r 5 Nodiadau Ymgynghorol a'r 5 Astudiaeth Achos ar fin cael eu lansio'n swyddogol ar y wefan a gobeithir gwneud tipyn o sbloet. Mae bas data ariannu newydd hefyd ar y gweill ar gyfer aelodau'n unig felly gwyliwch y gofod hwn!

Cynhyrchir y cyhoeddiadau fel agraffiadau gwefan er mwyn cadw'r costau a'r defnydd o bapur cyn lleied a phosib ac mae modd eu lawrlwytho am ddim. Er mwyn cael digon ar gyfer ein costau byddwn yn codi £20 y flwyddyn am gopïau papur a fydd yn cael eu hanfon atoch cyn gynted ag y byddant yn barod – gwasanaeth dewisol yw hwn y gellir ceisio amdano gyda'r ffurflen ar derfyn y diweddariad hwn.

Cymorth i gael ein neges yn y wasg

Gwyddom fod gennym lawer o straeon diddorol sy'n ysbrydoliaeth ac yn siwr o fod o ddiddordeb i eraill. Ond nid oes gennym lawer o brofiad mewn ennyn diddordeb y cyfryngau ynddynt. Ydych chi'n adnabod rhywun sydd gyda pheth profiad neu ddiddordeb yn y wasg a fyddai'n gwirfoddoli i gynorthwyo Jo i fynd i'r afael â'r cyfryngau?

Wrth feddwl am hyn gadewch i Jo wybod pa bapurau yn eich ardal yw'r rhai mwyaf effeithiol ac yn eich cyrraedd chi a'ch cymdogion, ac unrhyw fanylion cyswllt y gohebydd perthnasol.

Mae Llais y Goedwig ar Facebook a twitter

Peidiwch â phoeni os nad ydych yn defnyddio'r safleoedd yma – fydd dim byd yn cael ei bostio yno os nad yw hefyd ar gael ar y safle we, neu'r diweddariadau hyn. Os ydych yn eu defnyddio, yna dilynwch neu ymunwch â ni gan ei fod yn ddull defnyddiol o ledaenu'r gair am yr hyn sy'n digwydd ym myd grwpiau coetir cymunedol Cymreig, ac wrth gwrs gall fod yn gynt na disgwyl am ddiweddariad. Mae croeso i chi gymryd rhan yn y fforymau hyn ym mha bynnag iaith y dewiswch (y Gymraeg neu'r Saesneg).

Tudalen Facebook: http://www.facebook.com/pages/Llais-y-Goedwig/210634548981172

Grŵp Facebook http://www.facebook.com/groups/223690894328205?ap=1

I ddilyn Llais y Goedwig ar Twitter: @Llais_yGoedwig

Ffilmiau Coedwig Rhyngwladol

Ar ôl y diddordeb a ddangoswyd yn ffilmiau Gŵyl Ryngwladol Ffilmiau Coedwig, a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn Jackson Hole yn yr UD, cafodd Llais y Goedwig afael ar 10 awr o ffilmiau o'r ŵyl, a chytundeb yn ein caniatáu i'w rhyddhau i grwpiau sy'n aelodau. Os hoffech weld y ffilmiau neu gynnal dangosiadau cyhoeddus yna cysylltwch ag Adam Thorogood: adamthorogood@llaisygoedwig.co.uk. Fel arall, chwiliwch am ddangosiadau yn eich ardal.

Bydd dangosiad nos Wener 14eg o Hydref yng Nghanolfan Fywyd Gwyllt Cilgerran, y noson cyn Diwrnod Rhannu Sgiliau Llais y Goedwig.

Mae Llais y Goedwig yn gymdeithas wirfoddol o grwpiau coedlannau cymunedol a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2009 i ddarparu llais ar gyfer coedlannau cymunedol. Dymunwn rannu profiadau, cefnogi ein gilydd a gwella coedlannau lleol er budd pobl Cymru.

Cysylltwch â ni
Llais y Goedwig
Uned 6, Parc Eco Dyfi
Machynlleth, Powys

SY20 8AX
Ffôn: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk

Cynhyrchodd Llais y Goedwig nifer o gyhoeddiadau sy'n cynnwys rhai o agweddau pwysicaf sefydlu a rhedeg grŵp coetir cymunedol, yn ogystal ag astudiaethau achos manwl pump o grwpiau yng Nghymru. Gellir prynu copïau argraffedig llawn am danysgrifiad blynyddol o £20, gweler y slip isod. Gellir hefyd prynu nwyddau eraill Llais-y-Goedwig megis crysau-t a darllenydd newid hinsawdd ar ffon USB.

Slip archebu i'w dorri ymaith

Dychwelwch y slip hwn at Jo yn Uned 6 gyda siec yn daladwy i "Llais y Goedwig" ac fe anfonwn y nwyddau atoch.

Enw:

Cyfeiriad:

Grŵp:

	Pris	Nifer (a'r maint os yn gymwys)	Cyfanswm
Tanysgrifiad blynyddol o gyhoeddiadau argraffedig	**£20**		
Darllenydd Newid Hinsawdd ar ffon USB	**£10**		
Crys-T – steil dynion	**£10**		
Crys-T – steil merched	**£10**		
Ychwanegwch y tâl postio:			
Darllenydd Newid Hinsawdd	**50c**		
Crys(au)-T	**£2.50**		
CYFANSWM:			